

Tro o amgylch cyffiniau tref hynafol a diddorol yw hon. Awn ar hyd yr arfordir cyn troi am hen strydoedd sydd wedi cadw'u patrwm Canol Oesol. Ymlaen drwy dir glas a thros y bryncyn yn ôl drwy gaeau amaethyddol at yr arfordir drachefn. Mae'n cynnig golygfa newydd rownd pob cornel.

Manylion y daith

Amcan o hyd: 6.4km/4 milltir.

Amcan o'r amser: 2 awr.

Map AO: graddfa 1:25 000 Explorer 253.

Man cychwyn/gorffen: Maes parcio traeth Nefyn, SH302 407.

Mynediad a chyfleusterau

Parcio: Maes Parcio Ffordd Dewi Sant, Nefyn; lle i 30 car, LL53 6DU.

Bws: Gweler gwasanaeth Bws Arfordir Llŷn: 01758 721 777; oddrwsiddrws@yahoo.co.uk

Toiledau: Ar ben y lôn i'r traeth.

Lluniaeth: Caffi ar y stryd ac uwch y traeth a lle paned yn yr amgueddfa; Gwesty Nanhoron a bwytaï Indiaidd yn cynnig bwyd a diod.

Nodwch

- Gall y llwybr drwy Gae Pysgodyn fod yn **wlyb** ar adegau, felly mae angen esgidiau addas.
- Braslun yw'r map hwn. Argymhellir defnyddio'r **map AO** uchod.
- Cofier gadw at y Côd Cefn Gwlad: **Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch** naturalresources.wales/media/3598/cod-cefn-gwlad.pdf

6 Cylchdaith Nefyn



Cyfarwyddiadau'r gylchdaith

O'r maes parcio uwch y traeth, cerddwch yn ôl i gyfeiriad Ffordd Dewi Sant Nefyn/Morfa Nefyn. Ar ben yr allt, cyn cyrraedd y briffordd, trowch i'r chwith ar hyd Rhodfa'r Môr ac yna mae llwybr yn dilyn yr arfordir cyn troi am ganol yr hen dref. Heibio hen eglwys y Santes Fair, ac yna byddwch yn gweu ar hyd nifer o strydoedd cefn difyr cyn mynd ymlaen am Gae Pysgodyn. Oddi yno, mae dringfa fer i ben bryncyn, croesi priffordd A497 a dilyn llwybrau drwy gaeau amaethyddol yn ôl i gyfeiriad yr arfordir. Croeswch y ffordd B4417 rhwng Nefyn a Morfa Nefyn ac yna dilynwch Lôn Pwll William at lyn bychan. Cadwch gydag ochr chwith y pwll a mynd ymlaen at ben allt y môr gyda golygfeydd braf o Borth Nefyn. Yna yn ôl ar hyd Lôn y Traeth i'r maes parcio.

Mannau o ddiddordeb

Mae **hen dref Nefyn** ① wedi bod yn dref o statws ers Oes y Tywysogion Cymreig. Er iddi dderbyn siarter frenhinol gan goron Lloegr yn 1355, yn wahanol i Gonwy a Chaernarfon, ni fu ymgais i danseilio'r boblogaeth Gymreig yma a chreu coloni o fewnfudwyr breintiedig. Bu'n dref farchnad ac yn borthladd prysur am ganrifoedd.

Mae **Amgueddfa Forwrol Llŷn** ② wedi'i lleoli yn hen eglwys y dref (www.amgueddfa-forwrol-llyn.co.uk). Dethlir treftadaeth y rhan hon o arfordir Gwynedd drwy'r casgliadau diddorol a gafodd lety yn Eglwys y Santes Fair, sydd â'i sylfeini'n dyddio'n ôl i'r chweched ganrif ac a oedd ar un adeg yn ganolfan bwysig ar Lwybr y Pererinion. Adnewyddwyd adeiladau'r amgueddfa yn sylweddol yn 2014. Yn y fynwent sy'n amgylchynu'r eglwys, mae beddi llawer o forwyr a chapeiniaid Nefyn a'r ardal leol. Mae Amgueddfa Forwrol arall ar y cei ym Mhorthmadog (gweler Cylchdaith 15).

Siâp hirgul y cae sy'n gyfrifol am yr enw **Cae Pysgodyn** ③. Yr enw swyddogol arno yw 'Cae Iorwerth' yn dilyn ymweliad Edward I â Nefyn. Cynhaliodd hwnnw dwrnament yno yn 1283 i ddatlu ei fuddugoliaeth dros dywysogaeth Gwynedd.

Mae **Porth Nefyn** ④ yn cadw blas o ddylanwad y môr ar yr ardal hon. Mae'n gilfach diddorol a fu'n brysur o ran y diwydiant pysgota penwaig ac adeiladu llongau ar un cyfnod. Tri phennog yw arfbais Nefyn a dyna brif gynnyrch y dref. Byddai'r pysgotwyr yn hwylio mor bell ag arfordir Iwerddon i rwydo penwaig – erbyn 1910 roedd 40 o gychod pysgota 18 troedfedd o hyd yma, gyda chriw o bedwar pysgotwr ym mhob un. Adeiladwyd llawer o dai mawreddog Nefyn gan gapeiniaid llongau. Roedd honno yn alwedigaeth nodedig ar y glannau hyn hyd ddiwedd oes y llongau hwyliu – roedd cynifer â deg ar hugain o gapeiniaid yn byw yma ar un adeg.

Mae **Bragdy Cwrw Llŷn** ⑤ i'w weld mewn parc busnes ar Ffordd Dewi Sant, B4417. Bragdy lleol ydi hwn, yn cynhyrchu cwrw go-iawn ac yn cynnig teithiau ymweld o amgylch y gweithdy, cael cip ar y broses o fragu a chael

cyfle i brynu cynnyrch a swfenirau yn y siop nwyddau yno. Ymysg y poteli cwrw sydd ar werth yno mae Brenin Enlli, Cochyn a Seithenyn sy'n defnyddio hanes a chwedlau lleol wrth frandio.

